WYTHNOS 7

BETH YW CRISTION?

CYN Y SGWRS

> *Croesawch bawb sydd wedi dod ac awgrymwch eu bod yn cymryd 20 munud i weithio trwy'r adran o'r Llawlyfr Astudio o'r enw TRAFODAETH GRŴP I gyda'u grŵp.*

Y SGWRS

> *Cyflwynwch y sgwrs. Dim ond canllaw cyffredinol yw'r geiriad isod. Diben y sgwrs yw edrych eto ar yr hyn y mae'r cwrs wedi ymdrin ag ef hyd yma ynghylch hunaniaeth a chenhadaeth Iesu, ac yna egluro beth mae Iesu'n gofyn gan y rhai sydd eisiau ei ddilyn.*

Gofynnwyd i fachgen bach mewn ysgol Sul dynnu llun o Mair, Joseff a'r baban Iesu'n ffoi i'r Aifft. Roedd yr athro wedi bod yn sôn wrthynt am y digwyddiad yn Mathew pennod 2 lle mae angel yn ymddangos i Joseff mewn breuddwyd ac yn ei rybuddio i ffoi gyda'i deulu oddi wrth y Brenin Herod. Felly mae'r bachgen bach yn tynnu llun awyren fawr, a phan mae'r athro yn gofyn iddo beth ydyw, mae'n egluro mai llun ohonynt yn "ffoi i'r Aifft," ydyw gan ddangos Joseff, Mair a'r baban Iesu'n eistedd yn hapus yn eu seddau ar yr awyren. "Ond pwy yw hwnna?" gofynnodd yr athro, gan gyfeirio at ffigwr cysgodol yn sedd y peilot. Ac yntau wedi blino ar yr holl gwestiynau gwirion, mae'r bachgen bach yn dweud, "Dyna Peilot." (Nid yw'r darn yma yn gweithio yn Gymraeg - byddai'n well defnyddio'r enghraifft Saesneg)

Nid dim ond plant pump oed sy'n camddeall ystyr Cristnogaeth. Mae'n rhaid bod miliynau o bobl yn y wlad hon yn unig wedi gwrthod eu syniad hwy o Gristnogaeth, ond sydd go iawn wedi gwrthod rhywbeth sy'n efelychiad gwan o'r peth go iawn. Mae'n rhaid bod llawer iawn o Gristnogion hefyd sydd wedi colli golwg ar yr hanfodion. Rwyf nawr eisiau edrych ar Marc pennod 8 er mwyn darganfod yn union beth mae'n ei olygu i fod yn Gristion. Yn y bennod hon, rydym yn gweld Iesu'n egluro bod Cristion yn rhywun sy'n gwybod pwy yw Iesu, yn deall pam y daeth ef, ac yn barod i'w ddilyn - beth bynnag fo'r gost.

> *Dangoswch y penawdau canlynol.*

Pwy yw Iesu?

Pam y daeth Iesu?

Beth mae Iesu'n gofyn gennym?

Felly cwestiwn 1: pwy yw Iesu? Mae'r cwestiwn hwn wedi cael lle blaenllaw yn llyfr Marc hyd at bennod 8, ac rydym ni, y darllenwyr, yn gwybod yr ateb eisoes. Fel yr ydym wedi gweld, mae Marc wedi rhoi'r ateb i ni yn yr adnod gyntaf un, lle mae'n ysgrifennu bod y llyfr hwn yn llyfr am Iesu Grist, "Mab Duw."

Efallai eich bod yn meddwl y byddai hyn yn gwneud y llyfr yn anniddorol, ond y gwir yw nad yw'r disgyblion yn gwybod yr hyn yr ydym ni'n ei wybod. Ac felly rydym yn eu dilyn, ac yn gwylio wrth iddynt geisio gwneud synnwyr o Iesu. Mae Iesu yn eu gorfodi i ofyn cwestiynau ynghylch pwy ydyw trwy wneud pethau anhygoel - fel yr ydym wedi gweld. Maent yn ei wylio'n gostegu storm ffyrnig, yn gwella afiechydon anwelladwy, yn dod â merch fach yn ôl o blith y meirw. Maent hyd yn oed yn ei glywed yn honni ei fod yn gallu maddau pechodau. Ac eto nid ydynt yn dod i'r casgliad amlwg: mai dyma Fab Eneiniog Duw, y Crist, Mab Duw, yr un a addawyd trwy gydol yr Hen Destament. Roeddent yn disgwyl am hyn, yn gobeithio'n fawr amdano, ond nawr ei fod yma, yn sefyll o'u blaen, nid ydynt yn ei weld.

Ydych chi erioed wedi gweld un o'r lluniau sy'n ymddangos fel pe bai'n dangos un peth ond, o edrych ar y llun mewn ffordd wahanol, mae'n dangos rhywbeth cwbl wahanol? Y llun mwyaf adnabyddus yw'r llun o'r ferch ifanc brydferth sydd hefyd yn gallu edrych fel hen wraig hyll.

> *Dangoswch y llun. (Gellir ei lawrlwytho o'r wefan ar (www.christianityexplored.com.))*

Mae'n rhaid i mi gyfaddef, er syllu ar y llun am amser hir, fy mod wedi cymryd cryn amser cyn gallu gweld y ferch ifanc hardd. Yr unig beth yr oeddwn i'n gallu ei weld oedd yr hen wraig hyll. Ac os ydych yn seicolegydd amaturaidd, rwy'n siŵr y cewch lawer o hwyl â'r ffaith hon.

Wel, yn yr un modd, roedd gan Iesu ddau wyneb: y dynol a'r dwyfol. Roedd y ddau yn amlwg, roeddent yno i bawb eu gweld, ond er bod y disgyblion wedi syllu a syllu am nifer o flynyddoedd, yr unig beth yr oeddent yn gallu ei weld oedd y dyn. Nid oeddent yn gallu gweld wyneb dwyfol Crist. Mae Marc yn tynnu ein sylw at eu dallineb dro ar ôl tro. Er enghraifft, mae'n gwneud hynny ym mhennod 8, adnodau 17 ac 18. Mae Iesu wedi'i gythruddo â'r disgyblion: "A ydych eto heb weld na deall? A yw eich meddwl wedi troi'n ystyfnig? A llygaid gennych, onid ydych yn gweld, ac a chlustiau gennych, onid ydych yn clywed?" Ac yna, yn drawiadol iawn, y digwyddiad nesaf yr ydym yn darllen amdano yw Iesu yn galluogi i ddyn dall weld. Edrychwch ar Marc 8, adnodau 22 to 26.

> *Darllenwch Marc 8:22-26 allan yn uchel.*

Mae'r wyrth yn eithaf unigryw. Dyma'r unig un o wyrthiau Iesu sy'n digwydd yn raddol. I ddechrau, mae Iesu'n cyffwrdd y dyn dall, ac mae'n dechrau gweld, ond dim ond rhywfaint. Yna, mae Iesu'n ei gyffwrdd eto, a'r tro hwn mae'r dyn yn gweld yn berffaith. Mae Marc eisiau i ni weld hyn fel darlun o'r modd y mae llygaid y disgyblion yn cael eu hagor yn raddol. Wrth gwrs, nid yw'r disgyblion yn ddall yn gorfforol; maent yn ddall yn ysbrydol. Ond - y naill ffordd neu'r llall - maent yn dal i fod angen Iesu i'w iacháu.

Yna, yn adnodau 27 i 29, rydym yn gweld bod eu dallineb ysbrydol yn dechrau gwella. Ni chânt eu gwella'n llawn tan yn ddiweddarach, pan maent yn deall beth ddaeth Iesu i'w wneud a beth mae'n ei olygu i'w ddilyn, ond yma, am y tro cyntaf, ceir arwydd eu bod yn gwybod pwy yw Iesu.

> *Darllenwch Marc 8:27-29 allan yn uchel.*

Mae hwn yn gam mawr ymlaen i'r disgyblion. O'r diwedd, maent wedi sylweddoli mai Iesu yw'r Crist, y Brenin a addawyd yn yr Hen Destament, a fyddai â phŵer ac awdurdod Duw ei hun. Mae Iesu yn gofyn cwestiwn deifiol iddynt yma: "Pwy meddwch chwi ydwyf fi?" Mae'n bersonol iawn. Ac ar y pwynt hwn yn Efengyl Marc, mae'n troi'n bersonol iawn i ni hefyd. Pwy ydym ni'n ei ddweud yw Iesu? Beth ydym ni'n ei weld wrth edrych ar wyneb Iesu? Ydym ni'n gweld wyneb dynol neu allwn ni weld y wyneb dwyfol hefyd?

Ond nid yw'n ddigon gwybod pwy yw Iesu yn unig. Mae Pedr yn ateb y cwestiwn am hunaniaeth Iesu'n berffaith gywir yma, ond wrth ddod at y cwestiwn 'beth ddaeth Iesu i'w wneud' mae Pedr yn rhoi'r ateb cwbl anghywir.

PAM Y DAETH IESU?

Ac felly awn ymlaen i ateb yr ail gwestiwn - pam y daeth Iesu? Edrychwch ar yr adnod nesaf - adnod 30.

> *Darllenwch Marc 8:30 allan yn uchel.*

Nawr bod y disgyblion wedi gweld pwy ydyw, beth yw ymateb Iesu? Mae'n eu rhybuddio i beidio â dweud wrth neb amdano. Ar hyn o bryd dim ond hanner eu llygaid sydd wedi'u hagor. Mae Iesu'n gwybod, er eu bod yn gallu gweld pwy ydyw, nad ydynt eto'n gweld pam y mae wedi dod na beth mae'n ei olygu i'w ddilyn. A dyna pam mae'n dweud wrthynt am beidio â dweud wrth neb amdano eto.

Yna mae Iesu'n dechrau dysgu mwy iddynt amdano. Mae fel petai'n dechrau cywiro eu golwg rhannol. Edrychwch ar adnodau 31-32.

> *Darllenwch Marc 8:31-32 allan yn uchel.*

Dyna pam y daeth Iesu. Daeth i farw. A dweud y gwir, mae'n angenrheidiol ei fod yn marw. Ac mae Iesu'n gwybod hynny'n iawn. Mae'n gwybod mai'r unig ffordd y gall pobl bechadurus ddod nôl i berthynas â Duw yw os ydyw'n marw yn ein lle.

Ond mae gan Pedr ddarlun mor glir yn ei feddwl o Iesu fel brenin, nes ei fod yn ymddangos yn gwbl amhriodol iddo y byddai'n rhaid i Iesu farw. Ac mae'n dweud hynny wrth Iesu. Mae'n cymryd Iesu i'r naill ochr ac yn rhoi gair o anogaeth iddo. Sut yn y byd y gall brenin ddod â'i deyrnas trwy farw? Mae hynny'n chwerthinllyd. Ond mae Iesu'n dweud wrth Pedr ei fod wedi camddeall yn llwyr. Edrychwch ar adnod 33.

> *Darllenwch Marc 8:33 allan yn uchel.*

Mewn ffordd, nid wyf yn beio Pedr am feddwl fel hyn. Wedi'r cwbl, mae dwy ffordd o edrych ar y groes. Os yw ein bryd, fel y dywed Iesu, "ar bethau dynol," yna mae yna wendid mawr i'r groes. Mae Iesu'n ymddangos yn ddiamddiffyn, wedi'i waradwyddo, ac wedi'i orchfygu. O'r safbwynt dynol, mae'r groes fel pe bai'n profi'n derfynol bod Iesu wedi bod yn gwbl anghywir. Roedd yn iawn am gymaint o bethau, ond os mai Iesu oedd Mab Duw, pam na allai ddod i lawr o'r groes? Dylai brenin fod ar orsedd, nid ar groes.

Ond beth ydym ni'n ei weld os edrychwn ni ar y groes o ongl arall - o safbwynt Duw? Beth os yw ein bryd, fel y dywed Iesu, "ar bethau Duw"? Yna gallwn weld y groes fel rhan o gynllun Duw i achub. Gallwn weld bod Iesu'n dewis cael ei wahanu oddi wrth Dduw er mwyn i ni beidio â gorfod cael ein gwahanu oddi wrtho, gan dalu'r pris erchyll am ein pechod, cael ei ddienyddio - yn ein lle - am droseddau na wnaeth eu cyflawni. O safbwynt Duw, ac o'n safbwynt ni, os yw ein bryd ar bethau Duw, nid gwendid yw hyn. A dweud y gwir, dyma'r foment fwyaf pwerus erioed.

Ar 13 Ionawr 1982, gwnaeth miliynau o bobl wylio dyn moel, canol oed yn nofio yn nyfroedd rhewllyd afon yn Washington DC ar eu teledu. Roedd saith modfedd o eira wedi cwympo'r diwrnod hwnnw. Roedd y dŵr mor oer fel nad oedd disgwyl i unrhyw un fyw am fwy nag ychydig funudau. Daeth hofrennydd i'r fan yn gyflym, a gollwng rhaff i dynnu'r dyn allan o'r dŵr yn ddiogel. Cafodd y gwylwyr yn eu cartrefi eu synnu o weld y dyn yn gafael yn y rhaff ddwywaith, ac yna'n gadael i'r rhaff fynd yn fwriadol. Bob tro y cafodd y rhaff ei gollwng, roedd ganddo gyfle i gael ei achub, ond dewisodd adael fynd. Ac - o flaen miliynau o wylwyr a oedd yn gwylio'n eiddgar - bu farw'r dyn ym mhen hir a hwyr.

Mae'n ymddangos fel marwolaeth ofer a dibwynt. Ond mae'n rhaid i ni weld y darlun ehangach.

Bum munud yn gynharach, roedd awyren Boeing 737 a oedd yn cario wyth deg a thri o deithwyr a chriw wedi cychwyn o brif redfa'r Maes Awyr Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd rhew wedi casglu ar yr adenydd wrth i'r awyren aros i esgyn, ac roedd hyn yn atal yr awyren rhag cyrraedd uchder digonol, tarodd bont a oedd yn llawn cymudwyr ac yna plymio yn syth i Afon rewedig Potomac. Roedd y goroeswyr yn ymdrechu yn yr afon rewedig ymysg talpiau o rew, malurion, bagiau, clustogau seddi a thanwydd jet. Diolch byth, cyrhaeddodd hofrennydd a gollwng rhaff i lawr. Mae'r camerâu teledu yna'n canolbwyntio ar ddyn moel canol oed. Mae'n gafael yn y rhaff ac yn ei rhoi i rywun arall yn fwriadol, ac mae'r unigolyn hwnnw'n cael ei godi allan o'r dŵr yn ddiogel. Mae'r dyn yn gwneud hyn ddwywaith ac yna - wedi ymlâdd - mae'n boddi. O edrych ar yr holl fanylion, mae marwolaeth a oedd yn ymddangos yn ofer yn troi'n farwolaeth fwriadol, feiddgar a hynod o gariadus.

Ac mae'r holl bethau hyn yn wir am farwolaeth Iesu hefyd. Bu farw yntau hefyd yn rhan o genhadaeth i achub pobl. Yn ei gariad anhygoel daeth i'r ddaear a marw yn ein lle, gan gymryd y gosb yr ydym ni'n ei haeddu, er mwyn i ni allu cael perthynas â Duw. Cefnodd Duw arno Ef fel na fyddai'n rhaid i Dduw gefnu arnom ni. Mae dwy ffordd o ystyried y groes. Gallwn ei hystyried o safbwynt dynol, fel marwolaeth druenus a diangen. Neu gallwn ei hystyried o safbwynt Duw, fel ein hunig obaith o gael ein hachub. Bydd ein bywydau, yn ogystal â'n marwolaethau, yn cael eu pennu gan y ffordd yr ydym yn ymateb i'r hyn a wnaeth Iesu ar y groes.

BETH MAE IESU'N GOFYN GENNYM?

Ac mae hynny'n ein harwain at ein trydydd cwestiwn: beth mae Iesu'n gofyn gennym? Nid yw'n ddigon cydnabod pwy yw Iesu, neu hyd yn oed pam y daeth ef. Yn yr un modd â'r disgyblion, mae'n rhaid i ni hefyd ddeall beth mae'n ei olygu i'w ddilyn. Edrychwch ar Marc 8, adnod 34.

> *Darllenwch Marc 8:34 allan yn uchel.*

Yn ôl geiriau Iesu yma, mae dilyn Iesu'n golygu newid teyrngarwch. Mae hefyd yn golygu ymateb i alwad Iesu i farw. Yna, oherwydd nad yw'r pethau hyn yn hawdd, mae'n mynd ymlaen i roi rheswm argyhoeddiadol i ni dros ei ddilyn.

> *Dangoswch y penawdau canlynol.*

Newid teyrngarwch

Galwad i farw

Rheswm argyhoeddiadol

NEWID TEYRNGARWCH

Yn gyntaf, mae Iesu yn ein galw i newid teyrngarwch. "Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun ..." Mae ymwadu â ni ein hunain yn golygu peidio â byw er eich mwyn eich hun rhagor. Ac os nad ydych yn si□r a ydych yn byw er eich mwyn eich hun, rhowch gynnig ar ateb y cwestiwn hwn: pwy sydd â'r hawl i ddweud wrthych sut mae byw eich bywyd? Mae'n siŵr mai ein hymateb greddfol yw dweud, "Neb! Does gan neb hawl i ddweud wrthyf sut mae byw, neb ond fi. Fi yw'r unig un ddylai benderfynu beth ydw i'n ei wneud." Ond Duw wnaeth ein creu ni, ef sy'n ein cynnal ni, rydym yn ddibynnol arno am bopeth sydd gennym, ac mae'n afresymol byw ym myd Duw fel pe bai gennym ni'r awdurdod eithaf ar ein bywydau.

Felly mae Iesu'n dweud wrthym am ymwadu â ni ein hunain. Mae'n dweud hyn mewn ffordd arall yn Marc pennod 1, pan mae'n dweud "edifarhewch a chredwch yr Efengyl." Mae'r gair "edifarhau" yn llythrennol yn golygu "newid cyfeiriad." Mae "edifarhewch a chredwch" yn golygu rhoi'r gorau i ddilyn ein ffyrdd ein hunain ac yn hytrach dweud, "Arglwydd Iesu, rwy'n cydnabod pwy wyt ti, ac o hyn ymlaen rwyf am adael i ti gymryd yr awenau."

"Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun ..." Mae'n gyfarwyddyd syml a byr, dim ond hanner adnod, ond rwyf eisiau i ni weld ei fod yn hollol radical. Mae'n rhaid ymdrin â materion go iawn: fy amser a sut rwy'n ei ddefnyddio; fy arian a beth rwy'n ei wneud ag ef; fy ngwaith a beth yw fy agwedd tuag ato; fy rhywioldeb a beth yw fy marn amdano; fy nheulu a sut ydw i'n ymwneud â hwy.

Ond mae galwad Iesu yn fwy nag ymwadu â'r hunan. Efallai eich bod wedi sylwi bod cynhwysyn arall i orchymyn Iesu: "Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i." Nid yn unig ei bod yn rhaid i ni ymwadu â ni ein hunain os ydym eisiau ei ddilyn, mae'n rhaid i ni hefyd godi ein croes.

GALWAD I FARW

Cofiwch i ble mae Iesu'n mynd. Mae ar ei ffordd i'r groes, fel y mae newydd ddweud wrth y disgyblion. Mae'n drawiadol, ac yn ysgytwol iawn, gweld bod Iesu'n troi'i sylw'n syth o'r groes y mae'n rhaid iddo ef ei chario, i'r groes y mae'n rhaid i ni ei chario. Mae Iesu'n rhybuddio ei ddarpar ddilynwyr, os ydynt eisiau ei ddilyn ef, bod yn rhaid iddynt hwy hefyd fynd tua'r groes. Er ei bod yn annhebygol iawn y bydd yn rhaid i unrhyw un ohonom wynebu croes lythrennol, mae'r gorchymyn yn dal i beri ias oer. Mae Iesu yn dweud wrthym yma, os ydym yn rhoi ein hunain iddo, y bydd yn golygu merthyrdod o ryw fath.

Felly dyma gynnig Iesu i'w wrandawyr: "Fe wna i farw drosoch, ond mae'n rhaid i chi fod yn barod i farw drosta i, os ydych eisiau fy nilyn i." Mae'n alwad i ddod i farw.

Ym mlynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, rhoddodd y fforiwr Ernest Shackleton hysbyseb ym mhapurau newydd amrywiol Llundain i geisio dod o hyd i ddynion a fyddai'n dod gydag ef ar ei daith begynol. Dyma oedd geiriad yr hysbyseb: "Rydym yn chwilio am ddynion i ddod ar daith beryglus. Cyflogau bach, oerfel chwerw, misoedd hir mewn tywyllwch llwyr, perygl cyson, dim sicrwydd y byddwch yn dychwelyd yn ddiogel." Does dim rhaid dweud nad oedd llawer o ymgeiswyr. Ond mae apêl Crist yn debyg. Dewch i farw.

Wrth gwrs, nid yw Iesu'n dweud y bydd pawb sy'n ei ddilyn yn wynebu marwolaeth dreisgar. Ond, byddant yn wynebu dioddefaint o leiaf. Gall ei ddilynwyr ddarganfod eu hunain wedi'u hymyleiddio, wedi'u camddeall ac wedi'u hynysu. Pam? Oherwydd efallai y bydd eich ffrindiau, eich teulu, eich cydweithwyr, a'r rhai o'ch cwmpas yn meddwl bod eich credoau a'ch ymddygiad yn anghyfforddus neu hyd yn oed yn sarhaus. Er enghraifft, os ydych yn sefyll dros honiad Crist mai ef yw'r "ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd," gan fynnu na all neb adnabod Duw ond trwyddo Ef, yna fe wnewch wynebu gwrthwynebiad.

Nid Cristion yw rhywun sy'n gweld yn glir pwy yw Iesu a pham y daeth yn unig. Mae Cristion yn rhywun sy'n barod i'w ddilyn, beth bynnag fo'r gost.

Felly gyda galwad Iesu i newid teyrngarwch, y daw galwad i farw. Os ydych wedi deall beth mae hynny'n ei olygu, byddwch yn meddwl yn ddifrifol iawn cyn rhoi eich bywyd i Grist. Mae'n ymddangos bod llawer iawn i'w golli. Gan gadw hynny mewn cof, mae Iesu'n mynd ymlaen i roi rheswm argyhoeddiadol i ni dros newid ein teyrngarwch.

RHESWM ARGYHOEDDIADOL

Os ydym yn meddwl am ddilyn Crist yn nhermau bydol yn unig, mae'r gost yn ymddangos yn rhy uchel. Felly bwriad Iesu yn adnodau 35 i 37 yw rhoi'r safbwynt cywir i ni. Edrychwch ar yr adnodau hyn.

> *Darllenwch Marc 8:35-37 allan yn uchel.*

Mae'r darn hwn yn haeru mai ein "bywydau" yw'r peth mwyaf gwerthfawr sydd gennym. Os ydym yn colli ein bywyd, nid oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w gael yn ôl.

Wrth natur rydym yn dueddol o ganolbwyntio ar ein hamgylchiadau presennol. Os nad yw rhywbeth o fudd i ni nawr, nid oes gan bobl lawer o ddiddordeb. Ond yma mae Iesu eisiau codi ein llygaid o'r presennol a'u hoelio ar y dyfodol. Ac mae'r Beibl yn dweud bod y dyfodol yn hanfodol bwysig oherwydd ei fod yn dragwyddol. Pan fyddwn yn marw, nid dyna'r diwedd. Mae Iesu'n ein dysgu bod cysylltiad rhwng sut yr ydym yn byw nawr a'r hyn fydd yn digwydd ar ôl i ni farw.

Ac mae tro yn y gynffon, oherwydd bydd y rhai sy'n ceisio cadw eu bywyd yn ei golli, a'r rhai sy'n barod i golli eu bywyd yn cael bywyd. Mae Iesu'n gwybod yn iawn cymaint yr ydym eisiau dal gafael ar ein bywydau, i wneud yr hyn yr ydym eisiau'i wneud pan fyddwn eisiau'i wneud. Ond mae'n ein rhybuddio, os ydym yn byw fel hyn, yn y pen draw byddwn yn colli'r hyn yr ydym mor awyddus i ddal gafael ynddo. Mae'n dweud wrthym, os ydym eisiau dal gafael ar ein bywydau, dim ond un dewis sydd ar gael i ni: mae'n rhaid i ni adael iddo gymryd yr awenau.

Bydd Crist yn barnu'r byd, pa un ai ydym ni'n hoffi hynny ai peidio. A gallwn ddewis a ydym eisiau i'r barnwr hwn fod yn achubwr i ni hefyd ai peidio. Ac yn y pen draw, cawn ein trin yn deg iawn. Cawn ein trin gan Iesu yn union yr un modd ag y gwnaethom ni ei drin ef, fel y dywed wrthym yn Marc pennod 8, adnod 38.

> *Darllenwch Marc 8:38 allan yn uchel.*

Oherwydd mai Iesu yw'r person fydd yn dychwelyd i farnu'r byd, nid yw'n ystum hunanddinistriol i ymddiried ynddo â'n bywydau. Wrth wneud hynny rwy'n gwybod y bydd fy mywyd yn cael ei achub. Hefyd, mae beth bynnag y gallem ei golli trwy ddilyn Crist yn ymddangos yn ddi-nod pan fyddwn yn ystyried yr hyn sy'n ein disgwyl yn y nefoedd. Mae Iesu'n ymbil arnom i gefnu ar y pethau a fydd yn ein dinistrio - hunangariad, hunanaddoliad, hunanewyllys - ac mae'n ymbil arnom i beidio â gwastraffu ein heneidiau.

Ym 1000 OC, 186 o flynyddoedd ar ôl marwolaeth yr Ymerawdwr Siarlymaen, gwnaeth swyddogion yr Ymerawdwr Oto ailagor bedd Siarlymaen. O'u blaen roedd golygfa hynod iawn. Ymhlith yr holl wychder a oedd wedi'i gladdu gydag ef - yr aur, y gemau, y trysor amhrisiadwy - roedd sgerbwd Siarlymaen ei hun, yn dal i fod yn eistedd ar ei orsedd, yn dal i fod yn gwisgo'i goron. Ar ei liniau roedd Beibl, ac roedd bys esgyrnog yn gorffwyso ar Marc pennod 8, adnod 36: "Pa elw a gaiff rhywun o ennill yr holl fyd a fforffedu ei fywyd?" Tybed pa ateb a roddodd Siarlymaen?

AR DDIWEDD Y SGWRS

Dyma rai cwestiynau ar gyfer eich grwpiau

> *Dangoswch y cwestiynau canlynol a'u darllen allan yn uchel.*

- **'Pa elw a gaiff rhywun o ennill yr holl fyd a fforffedu ei fywyd?' (Marc 8:36). Sut fyddech chi'n ateb y cwestiwn hwn?**
- **Dywedodd Iesu: 'Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i' (Marc 8:34). Ydych chi'n teimlo y gallech chi wneud hyn?**
- **'Cristion yw rhywun sy'n barod i ddilyn Crist, beth bynnag fo'r gost.' Beth yw'r gost?**

> *Caniatewch 30 munud i'r grwpiau weithio gyda'i gilydd trwy'r adran yn y Llawlyfr Astudio o'r enw Trafodaeth Grwp 2.*

AR DDIWEDD Y DRAFODAETH

Cyn yr wythnos nesaf, byddai'n gymorth mawr pe baech yn cwblhau'r adran ASTUDIO GARTREF yn eich Llawlyfr Astudio.

Wrth i'r sesiwn ddod i ben, hoffwn ddweud ychydig eiriau am sut mae cymhwyso'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu o efengyl Marc. Trowch i Marc pennod 1, adnod 15 ac edrychwch ar yr hyn mae Iesu'n ei ddweud. "'Y mae'r amser wedi ei gyflawni,' meddai. 'Mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifarhewch a chredwch yr Efengyl!'" Dydw i ddim yn gwybod lle ydych chi'n sefyll gyda Duw na beth yw eich barn chi am Iesu, ond fel y gwelwch yma, yr ymateb priodol i Iesu yw edifarhau a chredu. Golyga hyn ein bod yn troi oddi wrth yr hyn sy'n anghywir ac yn ymddiried yn yr hyn y mae Iesu wedi'i wneud drosom ar y groes.

Efallai eich bod eisoes yn Gristion. Rydych wedi ymateb i'r hyn a wnaeth Iesu ar y groes trwy ofyn iddo faddau i chi. Rydych eisiau byw bywyd sy'n ei fodloni, mewn diolchgarwch am y cyfan y mae wedi'i wneud drosoch. Gofynnwn i chi barhau i ddod oherwydd bydd y tair wythnos nesaf yn eich helpu i barhau i fyw i Grist.

Neu efallai na fyddech yn galw'ch hun yn Gristion, a'ch bod yn dal i fod â chwestiynau, ond rydych eisiau gwybod mwy. Gobeithio y bydd yr wythnosau nesaf o gymorth i geisio ateb y cwestiynau hyn - a gadewch i mi ddweud pa mor ddiolchgar ydym ni eich bod yn rhoi o'ch amser i geisio deall hyn.

Yn olaf, efallai eich bod yn gwybod nad ydych yn Gristion, ond rydych wedi cael eich perswadio gan yr hyn yr ydych wedi'i glywed. Rydych yn credu mai Iesu yw'r person y mae'n honni bod. Gallwch weld eich gwrthryfel yn erbyn Duw, eich angen am achubiaeth, ac rydych eisiau cael maddeuant gan Dduw. Wel, os yw hynny'n wir amdanoch chi, hoffwn roi gweddi i chi ei gweddïo os ydych yn barod i edifarhau a chredu. Does dim pwysau arnoch i wneud hyn ond, os ydych yn barod, mae'r weddi hon yn rhoi cyfle i chi ddechrau'r bywyd Cristnogol.

Os nad ydych eisiau gweddïo'r weddi ar hyn o bryd, byddwch yn amyneddgar â ni. Mae copi o'r weddi i'w chael yn eich Llawlyfr Astudio, felly gallwch fynd â'r weddi gartref a meddwl drwyddi yn eich amser eich hun, os hoffech chi.

Rwyf am ddarllen y weddi allan yn uchel unwaith, er mwyn i chi wybod yn union beth mae'r weddi'n ei dweud, ac yna rwyf am ei gweddïo, gan eich gwahodd i adleisio'r weddi yn eich calon os ydych chi eisiau gwneud hynny.

Dad nefol, rwyf wedi gwrthryfela yn dy erbyn. Pechais yn fy meddyliau, fy ngeiriau a'm gweithredoedd - weithiau yn ddiarwybod, weithiau'n fwriadol. Mae'n ddrwg gen i am y ffordd rwyf wedi byw, ac rwy'n gofyn i ti faddau i mi. Diolch fod Iesu wedi marw ar y groes er mwyn i mi gael maddeuant. Diolch am gael gweld yn glir yn awr pwy yw Iesu a pham y daeth ef. Os gweli di'n dda, anfon dy Ysbryd Glân i'm helpu i'w ddilyn ef beth bynnag fo'r gost. Amen

> *Darllenwch y weddi eto. Darllenwch yn araf, gan roi amser i'r cyfranogwyr adleisio'r weddi'n ddistaw i'w hunain.*

Os gwnaethoch chi weddïo'r weddi, rhowch wybod i un o'r arweinwyr er mwyn iddynt eich helpu wrth i chi ddechrau ar y bywyd Cristnogol.

> *Diolchwch i bawb am ddod a dewch â'r noson i ben.*